

Cofnodion Cyfarfod llawn Cyngor Tref Dinbych a gynhaliwyd nos Fercher Mai 13eg 2020, cyfarfod Zoom am 5.00yh.

Presennol: Cynghorwyr Gaynor Wood-Tickle (Cadeirydd), Rhys Thomas (Dirprwy), Roy Tickle, Catherine Jones, Alyn Ashworth, Dyfrig Berry, Glenn Swinger; Jenny Barlow (Clerc y Dref) & Carys Jones (Cynorthwydd Dinesig)

Ymddiheuriadau: Cyng Gaynor Morgan Rees, Rob Parkes, Irene Williams & Lara Pritchard

Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod cyngor llawn ym mis Mai.

167. Datganiad Diddordeb Personol:

Cynghorydd	Eitem	Bersonol neu Niweidiol
Catherine Jones	5a & 5h	Niweidiol
Rhys Thomas	5b	Niweidiol
Dyfrig Berry	5b	Niweidiol

168. Cytunwyd a nodwyd Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar nos Fercher Ebrill 29ain 2020 (Y Maer i lofnodi unwaith mae cyfarfodydd gwyneb i wyneb yn ail ddechrau)

169. Coronofirws.

Mae pob e-bost perthnasol wedi cael ei gylchredu gan Clerc y Dref, ar hyn o bryd nid oes unrhyw newid yn y canllawiau.

Gall Clerc y dref wneud y penderfyniad ynghlyn a chynnal y Cyfarfod Blynyddol ac ar ôl siarad hefo chynghorau tref eraill mae yn ymddangos fod y cynghorau llai yn gwneud dros dechnoleg a'r rhai mwy yn aros i gael cyfarfodydd blynyddol wyneb yn wyneb yn hwyrach ymlaen yn y flwyddyn. Efallai y bydd cyfle i gael 20/30 o bobol yn Neuadd y Dref tuag Awst/Medi, bydd hyn yn galluogi llofnodi'r datganiad ym mhresenoldeb y cynghorwyr os bydd newid Maer. Ar hyn o bryd mae'r canllawiau yn cynghori cael y cyfarfodydd erbyn 31.12.2020 gan fethu hynny erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Dywedodd y Cyng Rhys Thomas fod rheolau Cymru yn wahanol ac yn cytuno na ddylid gwneud unrhyw benderfyniad ar hyn o bryd.

170. Ceisiadau am gymorth:

Gohiriwyd o gyfarfod mis Mawrth:

a) Amgueddfa Dinbych, S137 £1200.00
(Rhif siec 007053)

b) Cymdeithas Gymraeg S25 £200.00
(Rhif siec 007054)

c) Y Bigwn - nodwyd, tynnwyd y cais yn ôl

ch) Ymddiriedolaeth Canser yr Arddegau S137 £100.00
(Rhif siec 007055)

d) Llangollen 2020 - Digwyddiad ddim yn mynd ymlaen, cynghori i ailymgeisio pan fydd angen.

dd) CAFC 2020 - Bydd yn cael ei ganslo, cynghori i ailymgeisio pan fydd angen.

Ceisiadau newydd:

e) Clwb Criced Dinbych - Cynghori i ailymgeisio pan mae'r sefyllfa COVID yn fwy sefydlog a chynghori bydd y Cyngor yn eu cefnogi yn llawn wrth symud i'w lleoliad newydd.

f) Clwb Crefftiau Carnifal, S137 £1000.00
(Rhif siec 007056)

ff) Tŷ Gobaith S137 £1250.00

(Rhif siec 007057)

g) Y Tŷ Gwyrdd - Cynghori i ailymgeisio pan fydd y sefyllfa COVID fwy sefydlog hefo mwy o fanylion i gynorthwyo gyda'r broses ymgeisio.

171. Nodyn o ddiolch - derbyniwyd grantiau - nodwyd:

a) Theatr Twm o'r Nant

b) Grŵp Anghofiwch Fi Ddim

c) Ambiwylans Awyr Plant Cymru

172. Llythyr cadarnhau ynghylch S137 - nodwyd:

a) Drysau Agored Dinbych

b) Cymdeithas Gefeillio Dinbych

173. Cyfarfodydd Zoom - talu misol ac asesiad risg

Dywedodd Clerc y Dref mai'r ffi fisol ar gyfer y pecyn Pro yw £11.99 y mis - bydd hyn yn galluogi i'r opsiwn deialu i mewn (ffôn) fod ar gael i gynghorwyr a gwesteion pe byddent am ymuno â'r cyfarfod gan ddefnyddio'r fformat hwnnw. Angen sicrhau bod y cyfarfodydd yn hygyrch i bawb. Mae'r Cyng Catherine Jones yn cynghori ei fod yn hapus cyn belled nad oedd unrhyw gontract - cadarnhaodd Clerc y Dref mai dyma oedd yr achos a dim contract. Gan nad oes gan y cyngor tref arian fân, bydd clerch y dref yn talu'r ffi ac yn cael yr arian yn ôl yn ddiweddarach. Cytunwyd ar hyn gan gynghorwyr y dref.

Dosbarthwyd yr asesiad risg gyda mân addasiadau yn ofynnol i'r ddogfen. Derbyniwyd hyn gan gynghorwyr y dref.

Y cyfarfod nesaf i'w gynnal ddydd Mercher 27ain Mai am 5.00yh, bydd Clerc y Dref yn anfon manylion Zoom unwaith y bydd y pecyn newydd wedi'i sefydlu.

Caeodd y cadeirydd y cyfarfod am 5.57 yh.

Arwyddwyd:.....(cadeirydd)

Dyddiad.....